

Cyngor Cymuned **LLANBRYNMAIR** Community Council

Cyfarfod Blynyddol

Clerc: Sarah Reast, E-bost: machinations@btconnect.com Tel. 07743 689912

Cofnodion y cyfarfod a gynhalwyd ar nôs Fercher, 7fed Mis Mai 2025, am 7:00yh
yn y Canolfan Cymunedol, Llanbrynmair.

Presennol

Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), G Davies, I Edwards, R Ashton, E Lewis, B Jones, S Evans, D Jones, F Cauley a Cyng. G Mitchell (Powys)

Cytynwyd i brynnu llyfr cofrester i Cynghorwyr llofnodi

Ymddiheuriadau – P Jones

Cworum – Cadarnhawyd mae 4 aelod sydd yn ffurfio cworum

Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a materion yn codi – Cytynwyd Mehefin 5ed 2024.

Ethol swyddogion a cynrichiolwyr – Rhoddwyd diolch i E Davies am ei ddwy flynedd o wasanaeth fel Cadeirydd. Cytynwyd y fydd R Ashton yn symud o fod yn Is-Gadeirydd i fod yn Gadeirydd yn ôl y traddodiad. Cynnigwyd Bryn Jones fel Is-Cadeirydd newydd gan E Lewis a'i eilio gan F Cauley, roedd pawb yn gytun.

Mae cynrichiolaeth y Cynghorwyr a'r Cyngor ar pwyllgorau eraill wedi ei cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Adolygu a mabwysiadu rheolau sefydlog a rheolau ariannol – Cytunwyd ond rhoddwyd sylw ychwanegol at rheolau ynglyn a cynnal cyfarfodydd ar-lein ac ar sut gall aelodau o'r cyhoedd mynychu cyfarfodydd yn enwedig pan fydd angen gwasanaeth cyfieithu. S Reast i ofyn am gyngor gan Un Llais Cymu. Ar yr ochr ariannol – arolygwyd y broses o cymeradwyo taliadau a cytynwyd y dylai'r cadeirydd arwyddo mantolen y banc pob chwarter wedi i'r Cyngor cytuno bod y balans yn cyd-fynd efo'r cyfrifion a cyflwynir gan y Clerc.

Adroddiad blynyddol – Cyflwynwyd draft o'r Adroddiad Blynyddol, trafodwyd rhai cywiriadau cyn ei cytuno.

Adroddiad Bioamrywiaeth – Cyflwynwyd drafft o'r adroddiad, trafodwyd rhai cywiriadau ac awgrymiadau ychwanegol. S Reast a F Cauley i ystyried ymhellach cyn cyflwyno eto.

Adolygu a mabwysiadu cynllyn hyfforddi'r Cyngor

- B Jones i wneud Dealltwriaeth o'r Gyfraith
- F Cauley i wneud Bioamrywiaeth
- S Evans i wneud Cynllunio
- S Reast i wneud Cynaliadwyedd / Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol

Cadarnhau trefniant yswiriant ar gyfer pob risg perthnasol – Cafodd y y polisi yswiriant ei diweddarau ym mis Medi 2024 ar ôl adnewyddu'r toiledau felly ni fydd rhaid gwneud eto tan Medi 2025. Fydd angen edrych ar risg digidol a gwneud yn siwr fod hyny yn cael ei cynnwys.

Adolygu aelodaeth Cynghorwyr i cyrff eraill - Mae diweddariad ar diddordebau'r Cynghorwyr ar pwyllgorau eraill wedi ei cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Materion ariannol a cadarnhau'r mantolen ar gyfer yr 'Annual Return' –

- 1. Mantolen terfynol i 2024-25 – cytynwyd y ffigurau fel adlewyrchiad cywir o taliadau a derbyniadau yn ystod y flwyddyn yn ystod cyfarfod mis Ebrill 2025. Fydd y ffigurau yn cael ei defnyddio ar yr 'Annual Return'
- 2. Cyflwynwyd diweddariad ar y polisi rheolaeth ac assesiad risg ariannol a cafwyd ei llofnodi
- 3. Taliadau a lwfansau i cynghorwyr. Ni chafodd y mater yma ei drafod, bydd rhaid gwneud yn y Cyfarfod Arferol nesaf

Apwyntiad cyfrifwyr ar gyfer awdit allanol – Cytynwyd i ddefnyddio cyfrifwyr DRE & Co. yn Drenewydd

Cyflog a contract y Clerc – Cytynwyd i parhau â'r telerau presennol ond fydd y cyflog yn codi i £13.05ya yn ôl raddfa NALC Spinal point 6 LC1(5-6)

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf –

Cynhelir y Cyfarfod Arferol nesaf ar nôs Fercher, 4ydd mis Mehefin 2025
Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nesaf ar nôs Fercher, y 6ed o mis Mai 2026, 7.00yh

Dilynwyd y Cyfarfod Blynyddol gan Cyfarfod Arferol byr i arolygu un mater cynllunio a taliadau dyledus

.Cynllunio

- 25/0388/FUL | Construction of a purpose built slurry store | Ystrad Fawr Talerddig Llanbrynmair Powys SY19 7AL - Cefnogwyd

Ceisiadau a taliadau

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
07/05/25	Cyflog y Clerc - Ebrill	£417.60	Cytunwyd
07/05/25	Treth ac NI ar cyflogau - Ebrill	£120.15	Cytunwyd
07/05/25	Powys – Treth ar y maes parcio	£477.12	Cytynwyd
07/05/25	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu – Ebrill	£120.00	Cytynwyd
07/05/25	Joanna Whiteway – Glanhau'r toiledau	£300.00	Cytynwyd
07/05/25	Balans bill Archwilio Cymru o 2018-19	£929.12	Cytynwyd
07/05/25	E.ON Next	£28.39	Cytynwyd
07/05/25	Gloversure - Wefan	£48.00	Cytynwyd
07 05/25	Balans bill awdit 2018/19 - Awdit Cymru	£929.12	Cytynwyd

PHS – Estyniad y contract er mwyn gwagu biniau pob 4 wythnos yn hytrach na pob 6 wythnos, £15.00 ychwanegol yn ddyledus am y flwyddyn – Cytynwyd

Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

- I Edwards – Parcio ar y cae mawr a cynnig o gerrig gan Network Rail
- D Jones – Arwyneb pafin yng Nghlanclegyr yn dirywio
- S Reast – Ffens tu allan Dol y Bont
- G Davies – Tractor Run yn defnyddio'r cae mawr ar y 8ed o Fehefin

- I Edwards – Datblygiadau Hafodwen

Sarah Reast, Clerc, Cyngor Cymuned Llanbrynmair